OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 180 (Cy. 31)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Rheoli Brechu) (Cymru) 2006

Wedi'u gwneud - -	*31 Ionawr 2006*
Yn dod i rym - -	*1 Chwefror 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yntau wedi'i ddynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd(**2**), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, yn gwneud drwy hyn y Rheoliadau a ganlyn:

RHAN 1

Cyflwyniad

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Clwy'r Traed a'r Genau (Rheoli Brechu) (Cymru) 2006:

(2) Maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 1 Chwefror 2006.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

mae "anifail buchol" ("*bovine animal*") yn cynnwys byfflo a bison;

ystyr "anifail sy'n dueddol i gael y clwy" ("*susceptible animal*") yw tarw, buwch, dafad, gafr, carw, camel, lama, alpaco, gwanaco, ficwnia, unrhyw anifail arall sy'n cnoi cil, unrhyw fochyn (hynny yw, aelod o is-urdd Suina o urdd Artiodactyla), eleffant neu gnofil (heblaw cnofil anwes);

ystyr "arolygydd" ("*inspector*") yw arolygydd a benodwyd,

(**1**) 1972, p.68.
(**2**) O.S. 2005/2766.

ystyr "arolygydd milfeddygol" ("*veterinary inspector*") yw arolygydd a benodwyd o dan y Ddeddf;

mae i "awdurdod lleol" yr ystyr a bennwyd ar gyfer "local authority" gan adran 50(1) o'r Ddeddf;

ystyr "brechu" ("*vaccinate*") yw trin anifail sy'n dueddol i gael y clwy â serwm tra-imiwn neu frechlyn rhag y clwy;

ystyr "brechu amddiffynnol" ("*protective vaccination*") yw brechu a gyflawnir er mwyn amddiffyn anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy rhag ymlediad firws y clwy drwy'r awyr neu drwy fagwrfeydd lle nad oes bwriad i gigydda'r anifeiliaid sydd wedi'u brechu er mwyn atal y clwy rhag ymledu;

ystyr "brechu ataliol" ("*suppressive vaccination*") yw brechu a gyflawnir mewn mangre neu mewn ardal lle y mae taer angen atal y clwy rhag ymledu i'r tu allan i'r daliad neu'r ardal drwy leihau'r niferoedd o firysau'r clwy sy'n cylchredeg yno lle y mae bwriad i gigydda'r anifeiliaid sydd wedi'u brechu er mwyn atal y clwy rhag ymledu;

ystyr "briwgig" ("*minced meat*") yw cig y tynnwyd yr esgyrn ohono a'i falu'n ddarnau mân ac sy'n cynnwys llai nag 1% o fraster;

ystyr "carcas" ("*carcase*") yw carcas anifail ac mae'n cynnwys rhan o garcas, a'r cig, yr esgyrn, y croen, y pilennau, y carnau, offal neu unrhyw ran o anifail, ar wahân neu fel arall, neu unrhyw gyfran ohono;

ystyr "ceidwad" ("*keeper*") yw unrhyw berson sy'n gyfrifol am anifeiliaid, boed hynny'n barhaol neu dros dro, ond nid yw'n cynnwys unrhyw berson sy'n gyfrifol am anifeiliaid dim ond am ei fod yn eu cludo;

mae "cerbyd" ("*vehicle*") yn cynnwys—

(a) trelar, lled-drelar, neu beth arall a gynlluniwyd neu a addaswyd ar gyfer ei dynnu gan gerbyd arall;

(b) rhan o gerbyd y gellir ei datgysylltu;

(c) cynhwysydd neu strwythur arall a gynlluniwyd ar gyfer ei gario gan neu ar gerbyd.

ystyr "cig ffres" ("*fresh meat*") (gan gynnwys offal ac unrhyw baratoad cig) yw cig nad yw wedi mynd drwy unrhyw broses breserfio ac eithrio oeri, rhewi neu frysrewi, gan gynnwys cig a lapiwyd dan wactod neu a lapiwyd mewn awyrgylch a reolir;

ystyr "cig wedi'i wahanu'n fecanyddol" ("*mechanically separated meat*") yw'r cynnyrch a geir wrth grafu cig oddi ar esgyrn sy'n cynnal cnawd ar ôl tynnu'r esgyrn, gan ddefnyddio dulliau mecanyddol sy'n arwain at golli neu addasu strwythur ffibr y cyhyrau;

ystyr "cigydda" ("*slaughter*") yw unrhyw broses sy'n peri marwolaeth anifail;

ystyr "y clwy" ("*disease*") yw clwy'r traed a'r genau;

ystyr "cyfnod 1" ("*phase 1*"), mewn cysylltiad â pharth brechu, yw'r cyfnod amser sy'n dechrau wrth ddatgan y parth brechu hwnnw ac yn gorffen wrth wneud datganiad o dan reoliad 16(2);

ystyr "cyfnod 2" ("*phase 2*"), mewn cysylltiad â pharth brechu, yw'r cyfnod amser sy'n dechrau wrth i gyfnod 1 ddod i ben ac yn gorffen wrth wneud datganiad o dan reoliad 16(3);

ystyr "cyfnod 3" ("*phase 3*"), mewn cysylltiad â pharth brechu, yw'r cyfnod amser sy'n dechrau wrth i gyfnod 2 ddod i ben ac yn gorffen wrth wneud datganiad o dan reoliad 16(4);

ystyr "cynnyrch anifeiliaid" ("*animal product*") yw unrhyw beth sy'n deillio neu sydd wedi'i wneud (boed yn gyfan gwbl neu'n rhannol) o anifail neu o garcas;

mae "cynnyrch llaeth" ("*milk product*") yn cynnwys menyn, caws, maidd, iogwrt ac unrhyw gynnyrch arall sydd wedi'i wneud yn bennaf o laeth;

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "yn dwyn marc iechyd" ("*health marked*") yw dwyn y marc iechyd sy'n ofynnol gan erthygl 5(2) o Reoliad (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau penodol ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a fwriedir eu bwyta gan bobl(**3**);

ystyr "yn dwyn marc dynodi" ("*identification marked*") yw dwyn y marc dynodi sy'n ofynnol gan erthygl 5(1) o Reoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid(**4**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**5**);

ystyr "y Gorchymyn" ("*the Order*") yw Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Cymru) 2006(**6**);

ystyr "gwerthu" ("*sell*") yw gwerthu i'r defnyddiwr olaf;

mae i "lladd-dy" ("*slaughterhouse*") yr ystyr a roddir i'r ymadrodd hwnnw yn rheoliad 5(6) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006(**7**);

mae "llaeth" ("*milk*") yn cynnwys hufen, llaeth wedi'i hidlo, llaeth sgim a llaeth enwyn;

mae "mangre" ("*premises*") yn cynnwys tir, gydag adeiladau neu hebddynt;

ystyr "mangre adweithydd" ("*reactor premises*") yw mangre y datganwyd ei bod yn fangre adweithydd o dan reoliad 25(1)(b)(ii);

ystyr "mangre sydd wedi'i heintio" ("*infected premises*") yw unrhyw fangre y datganwyd ei bod wedi'i heintio o dan y Gorchymyn;

ystyr "man archwilio ar y ffin" ("*border inspection post*"), yw lle a bennwyd yn fan archwilio ar y ffin yn Atodlen 2 i Reoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) 2005(**8**);

ystyr "meddiannydd" ("*occupier*") o ran unrhyw fangre, yw'r person sydd â gofal y fangre honno;

ystyr "paratoadau cig" ("*meat preparation*") yw cig ffres, gan gynnwys cig a falwyd yn ddarnau mân, yr ychwanegwyd bwydydd, sesno neu ychwanegion ato neu a fu drwy brosesau nad ydynt yn ddigonol i addasu strwythur ffibr cyhyrau mewnol y cig a chan hynny'n diddymu nodweddion cig ffres;

ystyr "parth brechu" ("*vaccination zone*") yw parth brechu a ddatganwyd o dan reoliad 13;

ystyr "parth gwyliadwraeth" ("*surveillance zone*")

ystyr "parth gwyliadwriaeth brechu" (*vaccination surveillance zone*") yw parth gwyliadwriaeth a ddatganwyd o dan reoliad 13;

ystyr "parth gwarchod" ("*protection zone*") yw parth gwarchod a ddatganwyd o dan y Gorchymyn;

ystyr "parth rheolaeth dros dro" ("*temporary control zone*") yw parth rheolaeth dros dro a ddatganwyd o dan y Gorchymyn;

ystyr "priffordd gyhoeddus" ("*public highway*") yw priffordd a gynhelir ar draul y cyhoedd; ac

ystyr "wedi'i stampio ar ben" ("*overstamped*"), o ran eitem sy'n dwyn marc iechyd neu farc dynodi sy'n dwyn croes groeslin ychwanegol sy'n ddwy linell syth ac sy'n croesdorri ar ganol

(**3**) OJ Rhif L139, 30.4.2004, t.206. Ceir testun diwygiedig y Rheoliad mewn corigendwm (OJ Rhif L226, 25.6.2004, t.83).
(**4**) OJ Rhif L139, 30.4.2004, t.55. Ceir testun diwygiedig y Rheoliad mewn corigendwm (OJ Rhif L226, 25.6.2004, t.22).
(**5**) 1981, p.22, a ddiwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002, c. 42.
(**6**) O.S. 2006/180 (C.319)..
(**7**) O.S. 2005/31 (Cy.5).
(**8**) O.S. 2005/1159 (Cy.75).

y marc iechyd neu'r marc dynodi ac sy'n caniatáu i'r wybodaeth a geir yn y fan honno barhau'n ddarllenadwy (ar wahân i'r ffaith a osodwyd y groes ychwanegol gan yr un stamp â'r marc).

(2) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "wedi'i bennu ar gyfer ei frechu" ("*specified for vaccination*") yw anifail sydd i'w frechu mewn penderfyniad i gyflawni rhaglen frechu a wneir yn unol â rheoliad 9(2).

(3) Mae cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at "anifeiliaid sy'n tarddu o" ("*animals originating in*") barth brechu yn golygu—

(a) anifeiliaid a gedwir yn y parth brechu, a

(b) anifeiliaid a gafodd eu cadw o fewn ffiniau'r parth brechu ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod—

(i) sy'n dechrau 21 o ddiwrnodau cyn datgan y parth yn barth brechu, a

(ii) sy'n dod i ben gyda'r datganiad hwnnw.

Mangre sy'n dir comin neu dir heb ei gau

3. Yn y Rheoliadau hyn—

(a) mae tir comin neu dir sydd heb ei gau yn ffurfio mangre ar wahân i dir arall oni bai—

(i) bod parseli o dir yn cyffinio, a

(ii) bod yr holl anifeiliaid a gedwir ar y naill barsel o dir dan ofal yr un ceidwad;

(b) mae hysbysiad a gyflwynir i feddiannydd mangre sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol yn cynnwys unrhyw dir comin neu dir heb ei gau yn cael ei gyflwyno'n ddilys os cyflwynir ef i bob ceidwad anifeiliaid a gedwir yno (i'r graddau y gellir yn rhesymol wybod pwy yw'r personau hynny);

(c) mae gofyniad neu gyfyngiad a osodir ar feddiannydd mangre sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol yn cynnwys unrhyw dir comin neu dir heb ei gau yn gymwys i bob ceidwad anifeiliaid a gedwir yno.

Trwyddedau a datganiadau

4.—(1) Pan roddir trwyddedau o dan y Rheoliadau hyn—

(a) rhaid eu rhoi mewn ysgrifen,

(b) ceir peri iddynt fod yn ddarostyngedig i'r cyfryw amodau y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn credu eu bod yn angenrheidiol i atal y clwy rhag ymledu, yn ogystal ag unrhyw amodau sy'n ofynnol gan y Rheoliadau hyn, ac

(c) ceir eu diwygio, eu hatal neu eu dirymu mewn ysgrifen ar unrhyw adeg.

(2) Ac eithrio pan gyfarwyddir fel arall gan y Cynulliad Cenedlaethol, bydd trwydded a roddir yn Lloegr neu'r Alban at yr un diben â thrwydded y caniateir ei rhoi o dan y Rheoliadau hyn yn ddilys at y diben hwnnw yng Nghymru a bydd ei hamodau'n gymwys yng Nghymru fel pe bai'n drwydded a roddwyd o dan y Rheoliadau hyn.

(3) Rhaid i ddatganiadau a wneir o dan y Rheoliadau hyn fod mewn ysgrifen a rhaid i unrhyw ddiwygiad neu ddirymiad o ddatganiad gael eu gwneud drwy ddatganiad pellach.

Hysbysiadau

5.—(1) Pan roddir hysbysiadau o dan y Rheoliadau hyn—

(a) rhaid iddynt fod yn ysgrifenedig; a

(b) ceir eu diwygio neu eu dirymu mewn ysgrifen ar unrhyw adeg.

(2) Rhaid i hysbysiadau a gyflwynir i feddiannydd unrhyw fangre sy'n golygu y bydd yna unrhyw ofyniad neu gyfyngiad ynglŷn â'r fangre honno gynnwys disgrifiad o'r fangre honno sy'n ddigonol i ganfod eu hyd a'u lled.

(3) Caniateir diwygio'r disgrifiad hwnnw gan arolygydd milfeddygol os yw wedi'i fodloni nad yw'n disgrifio uned epidemiolegol unigol ynglŷn â'r clwy.

Dosbarthu gwybodaeth ynghylch cyfyngiadau a gofynion

6. Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gymryd y cyfryw gamau y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol i sicrhau bod trwyddedau, datganiadau a hysbysiadau'n cael eu dwyn i sylw'r rhai y gallent effeithio arnynt ac yn benodol rhaid iddo sicrhau cyhoeddusrwydd i roi gwybod am hyd a lled unrhyw barth a ddatgenir o dan y Rheoliadau hyn, natur y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n gymwys iddo a dyddiad ei ddatgan a'i ddileu.

Diheintio

7. Rhaid cyflawni gwaith diheintio o dan y Rheoliadau hyn gan ddiheintydd—

(a) a gymeradwywyd at ddibenion Gorchmynion Clwy'r Traed a'r Genau gan Orchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion Cymeradwy) 1978(**9**),

(b) a ddefnyddir yn ôl y crynodiad a bennir yn y Gorchymyn hwnnw, ac

(c) a ddefnyddir yn unol â chyfarwyddiadau neu argymhellion y gweithgynhyrchydd (os oes rhai) ac yn benodol, os argymhellir ei ddefnyddio cyn unrhyw ddyddiad, ei fod yn cael ei ddefnyddio cyn y dyddiad hwnnw.

RHAN 2

Y rhaglen frechu

Gwahardd brechu ac eithrio o dan drwydded

8.—(1) Ni chaniateir i unrhyw berson frechu anifail ac eithrio o dan awdurdod trwydded a roddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol sy'n caniatáu brechu ataliol neu amddiffynnol.

(2) Nid yw'r gwaharddiad yn y rheoliad hwn yn gymwys i—

(a) unrhyw beth a wneir o dan awdurdod trwydded a roddwyd o dan erthygl 4 o Orchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodol 1998(**10**); neu

(b) y gwaith o roddi brechlyn yn unol â thystysgrif profion ar anifeiliaid a roddwyd o dan reoliad 8 o Reoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2005(**11**).

Ffactorau sy'n cyfrannu at benderfyniad i ganiatáu brechu ataliol neu amddiffynnol

9.—(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried y ffactorau canlynol wrth benderfynu a fydd yn caniatáu brechu ataliol neu amddiffynnol—

(a) y risg y bydd y clwy'n brigo—

(i) yn y Deyrnas Unedig ac yn mynd ar led i unrhyw ran o'r wlad,

(ii) yn ymledu i Gymru gydag anifeiliaid sy'n dueddol i gael y clwy, carcasau neu bethau eraill sy'n debyg o ledu'r clwy drwy eu mewnforio, neu

(**9**) O.S. 1978/32, a ddiwygiwyd gan O.S. 2005/583(Cy.49); mae offerynnau diwygio eraill ond nid ydynt yn berthnasol.
(**10**) O.S. 1998/463.
(**11**) O.S. 2005/2745.